Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llandeilo, 3ydd Rhagfyr 2003, am 7.00pm.

Presennol: Cynghorwyr: Cyng R. Bellamy Cadeirydd, Cyng C. Jenkins, Cyng K. Day;
Arall: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol).

5930: Ymddiheuriadau: Colette Paterson (Clerc y Dref); Cynghorwyr: Cyng C. Cooper, Cyng D. A. Jones (Maer), Cyng D. Williams.

5931: Anfonebau i'w Talu: Cynigiwyd gan CJ, eiliwyd gan KD.

Geraint Price ar gyfer LBS	Coed i'r tân gwyllt	£52.63
J W Thomas	Gwaith argraffu i'r tân gwyllt	£357.50
M Rees	Trwsio golau Neuadd y Sir	£102.81
M Rees	Profi'r goleuadau Nadolig	£61.39
DETA	Bylbau goleuadau Nadolig	£521.82
Konica	Defnydd llungopïwr swyddfa	£36.15
Misco	Prynu argraffwr swyddfa	£406.46
C Paterson	Postio o'r swyddfa (5 mis)	£31.68
C Paterson	Defnydd swyddfa gartref (2 fis)	£56.00

5932: Incwm: Cynnal a chadw Llwybrau Traed Sir Gaerfyrddin £207.00

5933: Presept 2004-5:
Trafodwyd y presept gan y Cynghorwyr gan ei gymharu i gymunedau eraill yn Sir Gaerfyrddin sydd tua'r un maint. Darparwyd taenlen gan y clerc yn dangos amcangyfrifon o'r incwm a'r gwariant hyd ddiwedd Mawrth 2004: Incwm £48,610, gwariant £51,600. Hyd yn hyn nid oes unrhyw gostau ar gyfer prosiectau'r flwyddyn nesaf, gan ei bod yn flwyddyn cynnal etholiadau.

Cynigiwyd gan CJ ac eiliwyd gan KD y dylid rhewi'r presept ar £33,690.05 unwaith eto gan fod llawer iawn o arian yn y cronfa wrth gefn. Argymhellwyd y dylai'r Clerc gynhyrchu dyraniad cyllideb ar gyfer y pwyllgor Cyllid ym mis Ionawr.

5934: Materion ariannol eraill:
0128

Rheils Heol Cilgant – nid oes unrhyw arian wedi'i glustnodi ar gyfer hyn ac nid yw'r

pwyllgor yn siŵr os oes cais am grant wedi'i wneud. Hoffai'r pwyllgor Cyllid weld y manylion ar gyfer hyn ac unrhyw brosiectau eraill sy'n deillio o'r Cyngor Tref.

0129

5935: Trwsio ffenest Neuadd y Sir –Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn 2 ddyfynbris ar gyfer cyflenwi'r ffenest yn unig, sef £1380 heb wydr, neu £1150 yn cynnwys y gwydr.

Y Swyddog Technegol i ddod o hyd i ddyfynbrisiau i osod y ffenest yn ei lle. (Dyfynbris i'w chyflenwi a'i gosod yn £3900). Pob pris yn cynnwys TAW.

5936: Gohebiaeth:
Dim i'w gael.

Ceisiadau Adran 137 i'w cyfeirio i gyfarfod mis Ionawr.

Daeth y cyfarfod i ben a chafwyd cyflwyniad byr gan Bartneriaeth Davies Richards parthed y datblygiad tai ym Mhencrug. Codwyd materion gan aelodau yngl n â dwyster y tai, darparu man chwarae i blant, llwybr troed a mynediad ffordd i weddill y dref, cadw nodweddion naturiol a choed aeddfed.